

# Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol

## Cofnodion

### Teitl y cyfarfod:

Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol

**Lleoliad:** Cyfarfod dros Microsoft Teams

**Dyddiad y Cyfarfod:** 12 Rhagfyr 2022

### Yn bresennol:

David (Dav) Letellier, CNC (Cadeirydd)

Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru

Dennis Matheson, TFA

James Ruggeri, HCC

Einir Williams, Cyswllt Ffermio

Shane Thomas, Ffederasiwn Pysgotwyr Caerfyrddin

Creighton Harvey, Ffederasiwn Pysgotwyr Caerfyrddin

Mathew Walters, Llywodraeth Cymru

Sarah Jones, Dŵr Cymru

Kate Snow, United Utilities

Bernard Griffiths, Undeb Amaethwyr Cymru

David Ball, AHDB

Fraser McAuley, Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad

Nichola Salter, CNC

### Unigolion Ychwanegol a oedd yn Bresennol:

Geraint Hughes, Grŵp Ymgynghori Lafan (Eitem 2)

Nigel Elgar, Dŵr Cymru (Eitem 3)

Keri, Grŵp Dŵr y Bannau (Eitem 3)

Richard Roderick, Grŵp Dŵr y Bannau (Eitem 3)

### **Ysgrifenyddiaeth:**

Bronwen Martin, CNC

### **Ymddiheuriadau:**

Zoe Henderson, CNC

Delyth Lewis-Jones, AHDB

Marc Williams, CNC

Katy Simmons, CNC

Sarah Hetherington, CNC

## **Eitem 1 Cyflwyniadau, Ymddiheuriadau a Datganiadau o Fuddiant**

1. David (Dav) Letellier, CNC, fydd yn cadeirio'r cyfarfod heddiw gan nad yw Zoe Henderson (Aelod o Fwrdd CNC a Chadeirydd Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru) yn gallu bod yn bresennol. Croesawodd Dav bawb i'r cyfarfod dros Microsoft Teams gan nodi'r ymddiheuriadau. Sylwer bod y cyfarfod yn cael ei recordio ar gyfer y cofnodion ac y bydd y ffeil ddigidol yn cael ei dileu pan fydd cofnodion y cyfarfod wedi'u cymeradwyo.
2. Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant mewn perthynas â'r eitemau ar yr Agenda.
  - DS: Mae pob aelod o'r grŵp eisoes wedi llenwi ffurflenni datganiad o fuddiant ond dylent ddatgan hefyd a oes ganddynt fuddiant mewn unrhyw fater ar yr agenda.
3. Soniodd Dav y bydd y cyfarfod yn gorffen yn gynt na'r bwriad gan na allai un o'r cyflwynwyr gwadd fod yn bresennol. Gohiriwyd y cyflwyniad hwn a chaiff ei aildrefnu yn y Flwyddyn Newydd.

## **Eitem 2 Cyflwyniad: Y Rhyngrwyd Pethau (IoT)**

4. Ymunodd Geraint Hughes, Grŵp Ymgynghori Lafan, â'r cyfarfod i roi cyflwyniad dilynol, gan rannu rhai casgliadau o'r prosiect. Mae prosiect Partneriaeth Arloesi Ewrop (EIP) ar gwmpasu technoleg y Rhyngrwyd Pethau (IoT) i wneud penderfyniadau gwell ar ddefnyddio slyri yn ei gam olaf bellach. Mae Geraint yn cynrychioli Grŵp Ymgynghori Lafan sy'n cael ei contractio gan Cyswllt Ffermio fel rhan o Bartneriaeth EIP. EIP oedd ffynhonnell y cyllid ar gyfer y prosiect, a Grŵp Ymgynghori Lafan oedd yn ei gydgyssylltu a'i reoli.
5. Rhoddodd Geraint gyflwyniad cychwynnol i'r grŵp ar y 'Rhyngrwyd Pethau' ym mis Chwefror 2022 - [Cofnodion cyfarfod Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru \(21 Chwefror 2022\)](#).

6. Mae Partneriaeth Arloesi Ewrop (EIP) wedi cefnogi 45 o brosiectau ac mae gan bob prosiect EIP ddatganiad/mater/problem her y mae'n ceisio mynd i'r afael â hi. Mae'r project yn dwyn y byd academaidd ac ymchwil ynghyd â ffermwyr sy'n cynnal treialon, cynlluniau peilot ac ymchwil maes ar eu ffermydd.

7. Atgoffodd Geraint y grŵp o'r her ar gyfer y prosiect:

HER: gyda maint cyfartalog ffermydd godro Cymru yn ehangu, ac felly cyfanswm y slyri sy'n cael ei storio a'i roi ar y tir fesul fferm yn cynyddu, mae ffermwyr yn chwilio am atebion a fydd yn eu cynorthwyo i wneud y penderfyniadau gorau ynglŷn â phryd a sut i ddefnyddio slyri ar eu caeau. Bydd ffermwyr am osgoi risgiau o lygru cyrsiau dŵr ar eu ffermydd, ac optimeiddio'r maethynnau sydd ar gael mewn slyri i gyfoethogi eu priddoedd ymhellach.

8. Dywedodd Geraint eu bod am ddefnyddio'r IoT i weld sut y gallem ddefnyddio gwell data o synwryddion i osgoi'r risgiau o lygru cyrsiau dŵr. Ailadroddodd Geraint gynllun y prosiect sydd ar gael ar wefan Cyswllt Ffermio - [Cyswllt Ffermio: Partneriaeth Arloesi Ewrop \(EIP\) Cymru - 'Y Rhyngrwyd Pethau' \(IoT\)](#).

9. Roedd gan y prosiect gyfanswm cyllideb o £33,000 +TAW. Dechreuodd ym mis Ionawr 2020 ac roedd yr adroddiad diwedd prosiect i fod i gael ei gyhoeddi ym mis Ebrill/Mai 2022. Roedd pedwar cam i'r prosiect yn edrych ar yr IoT a'r synwryddion a'u defnyddio mewn amgylchedd fferm i ddarparu gwell data ac adnoddau i ffermwyr i wneud penderfyniadau.

10. Rhoddodd Geraint drosolwg byr o dechnoleg IoT a Rhwydwaith Ardal Eang Pellter Hir (LoRaWAN) ac esboniodd sut y cawsant eu defnyddio yn y prosiect. Yna, crynhodd Geraint rai o ganlyniadau'r ffermydd prawf yn y prosiect.

11. Soniodd Geraint am y costau posibl sy'n gysylltiedig â defnyddio'r math hwn o dechnoleg ar ffermydd eraill, ynghyd â'r hyn y gellir ei gyflawni.

12. Gydol y prosiect, mae'r tîm wedi bod yn ymgysylltu â'r rhai sy'n datblygu'r Ap Tywydd Tywi. Maent wedi rhannu barn o ran diffinio paramedrau ar gyfer rhybuddion, cydweithio ar ddelweddu'r ap a thrafod sut y gallai'r ddau brosiect ychwanegu gwerth at ei gilydd.

***PG Rhagfyr 01: Bronwen Martin, CNC, i rannu copi o gyflwyniad Geraint Hughes, ynghyd â'i fanylion cyswllt.***

13. Dywedodd Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru, fod gan ffermwyr ddiddordeb mawr mewn data a bod Llywydd NFU Cymru wedi mynd ati'n ddiweddar i ddyfynnu rhywfaint o'r data a gasglwyd ar ei fferm. Dywedodd Rachel fod hwn yn edrych fel prosiect cadarnhaol iawn ac y gallai fod yn adnodd arwyddocaol iawn ar gyfer gwneud penderfyniadau ar ffermydd yn y dyfodol.

14. Soniodd Bernard Griffiths, FUW, bod tymheredd y pridd yn amrywio yn ôl dyfnder, felly mae'n debyg bod lleithder y pridd yn amrywio yn ôl dyfnder hefyd. Gofynnodd Bernard a oes angen ystyried a yw slyri'n cael ei chwistrellu neu ei wasgaru ar yr wyneb yn y model. Dywedodd Geraint fod angen i ni archwilio hyn ac, er nad oes ganddo unrhyw arbenigedd penodol ym maes technoleg gwasgaru slyri drwy chwistrellu, mae'n deall y byddai hynny'n debygol o fod yn well dull o leihau'r risgiau amgylcheddol. Gwnaethom

osod y synwryddion ar ddyfnder o 10cm gan mai dyna'r safon ar gyfer mesur. Esboniodd Geraint y byddai angen i chi ystyried tymheredd y pridd gan y gallai fod gennych bridd sy'n 4 gradd Celsius ar ddyfnder o 10cm ond gallai fod wedi rhewi ar yr wyneb. Yna, byddai gennych chi algorithm sy'n dweud 'os yw tymheredd yr aer yn is na 2 radd Celsius, peidiwch â mynd yno', er efallai bod lleithder y pridd yn iawn. Dywedodd Geraint ei fod yn gyndyn i ddechrau dweud sut y dylid gwasgaru'r slyri, ond mae'r prosiect hwn wedi bod yn edrych ar ba ddata defnyddiol y gellid ei ddefnyddio. Dywedodd Bernard ei fod yn gobeithio y byddai lwfans yn cael ei wneud ar gyfer chwistrellu slyri gan fod y dull hwn yn llai tebygol o niweidio'r amgylchedd na gwasgaru ar yr wyneb, ond efallai bod hynny'n rhywbeth i'w ystyried wrth symud ymlaen.

### **Eitem 3 Cyflwyniad: Mega-ddalgylch Bannau Brycheiniog a Grŵp Dŵr y Bannau**

15. Ymunodd Nigel Elgar, Dŵr Cymru, â'r cyfarfod i roi trosolwg a diweddariad ar Mega-ddalgylch Bannau Brycheiniog a Grŵp Dŵr y Bannau. Roedd Nigel hefyd wedi gwahodd dau ffermwr o Grŵp Dŵr y Bannau (Keri a Richard) i'r cyfarfod i gefnogi'r drafodaeth.
16. Cyflwynodd Nigel waith Mega-ddalgylch Bannau Brycheiniog i Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru am y tro cyntaf ym mis Rhagfyr 2019 ar ôl iddo ddychwelyd o daith astudio i Catskills, UDA. Cafodd y daith ei hariannu gan Dŵr Cymru a'i chefnogi gan CNC. Catskills yw'r dalgylch dŵr ar gyfer Dinas Efrog Newydd, UDA. Mae'n enghraifft ryngwladol o ddiogelu dŵr drwy gynnal tirweddau gwaith, amaethyddiaeth a choedwigaeth. Dywedodd Nigel mai'r tirweddau gwaith, gan gynnwys y gymuned, yw'r pethau allweddol; nid dad-ddofi tir. Mae Dŵr Cymru wedi defnyddio hwn fel model ar gyfer datblygu Rhaglen Mega-ddalgylch Bannau Brycheiniog. Syniad y daith oedd gweld pa wersi y gellid eu dysgu a'u haddasu i gyd-destun Cymru. Roedd yn daith ddilynol yn dilyn taith gyfnewid ym mis Mawrth 2018 pan ddaeth criw o UDA i Gymru; ac yna, ym mis Mai 2019, aeth cydweithwyr o Dŵr Cymru, CNC a Llywodraeth Cymru yn ôl i Catskills. Nod penodol y daith oedd deall sut mae'r broses ymgysylltu â ffermwyr yn gweithio a sut mae'n cael ei chynnal. Mae Catskills wedi llwyddo i ddarparu dŵr o ansawdd uchel i gyflenwad dŵr yfed heb ei hidlo ers dros 30 mlynedd, gyda 95% o ffermwyr yn cymryd rhan yn y cynllun gwirfoddol.
17. Mae'r Catskills Watershed Agriculture Council (WAC) yn ddull partneriaeth lle mae'r ffermwyr yn rhan o'r ateb drwy reoli tir a rheoli'r rhaglen ei hun. Mae iaith a chyfathrebu'n ffactor pwysig, a chafodd pob ffermwr hwylusydd lleol, gyda DPP, hyfforddiant a digwyddiadau cymdeithasol parhaus yn sicrhau bod pawb yn teimlo'n rhan o'r broses. Esboniodd Nigel fod ymdeimlad o atebolrwydd lle'r oedd rhaid i'r ffermwyr ddilyn cynlluniau eithaf trylwyr, a oedd yn cael eu hadolygu gan gymheiriaid yn flynyddol. Mae'r holl wybodaeth am ffermydd a rennir yn gyfrinachol ac, os nad oedd ffermwr wedi cydymffurfio â'i gynllun, nid oedd unrhyw gosbau fel y cyfryw ond byddai taliadau'n cael eu hatal. Roedd y ffermwyr yn cael eu croesawu'n ôl cyn gynted ag y gallent ddatrys y problemau a rhoi eu busnes yn ôl ar y trywydd iawn.
18. Mae'r prosiect yn cael ei arwain yn lleol, yn seiliedig ar wyddoniaeth ac yn wirfoddol. Roedd llawer o'r staff ar gytundebau parhaol ac yn byw yn yr ardal. Mae rhai o'r hwyluswyr fferm wedi bod yn gweithio gyda'r un ffermwr ers dros ugain mlynedd. Roedd Prifysgol Cornell yn rhan bwysig iawn o'r WAC gan ddarparu ymchwil a chasglu

data. Roedd ymddiriedaeth yn nodwedd bwysig iawn ac mae llawer o gyfarwyddwyr WAC yn ffermwyr eu hunain a theimlir eu bod yn cynrychioli buddiannau'r ffermwyr yn deg, yn ogystal â sicrhau bod cyllid yn cyflawni ei amcanion.

19. Esboniodd Nigel eu bod wedi dychwelyd o'r daith gyda rhestr hir o bethau yr hoffent eu gwneud. Roeddem am ddwyn popeth ynghyd mewn un ddogfen waith a fyddai'n cael ei hadolygu'n flynyddol. Roeddem am ddatblygu credyd rheoli maethynnau hefyd, felly byddai'r ffermwyr yn cael eu gwobrwyo am ddilyn cynllun fferm a mynd y tu hwnt i'r rheoliadau. Gwnaethom ddweud y byddem yn datblygu ap cofnodi caeau ac yn edrych ar gynllunio porthiant manwl drwy sicrhau cydbwysedd rhwng faint o faethynnau sy'n dod i mewn i'r fferm a faint o faethynnau sy'n gadael y fferm. Roeddem hefyd am ystyried gwneud cais am Bartneriaeth Arloesi Ewrop (EIP) Ffermio Carbon Niwtral ac EIP Llain Glustogi Llystyfiant hefyd.
20. Trafododd Nigel yr hyn a wnaethant mewn gwirionedd. Y peth pwysicaf oedd treialu ffordd newydd o weithio. Sefydlwyd Grŵp Dŵr y Bannau (BWG) drwy Agrisgôp yn wreiddiol ac, ar ddiwedd y 12 mis, sefydlodd BWG ei hun fel Cwmni Buddiannau Cymunedol (CIC). Esboniodd Nigel y berthynas rhwng Dŵr Cymru a BWG, lle mae gan Dŵr Cymru gytundeb gyda'r CIC (nid gyda'r ffermwyr unigol). Mae'r CIC yn hunanlywodraethol, felly mae'n gweinyddu unrhyw gyllid y mae'n ei dderbyn ac yn sicrhau bod safonau a rhwymedigaethau'n cael eu bodloni.
21. Dywedodd Nigel eu bod wedi canolbwyntio ar fapio llif hydrolegol. Dangosodd Nigel fap o gae â'r gwastad iawn gyda bryniau cyfagos. Roedd y dŵr yn llifo oddi ar y bryniau ac ar draws yr ardal. Canfu'r grŵp fod y map a gynhyrchwyd yn gynrychiadol iawn o'r hyn a welsant ar lawr gwlad, ac roeddent yn ei weld fel dull mapio cyfleoedd yn hytrach na mapio risg. Yn yr achos penodol hwn, symudodd y ffermwr ei gât oddi wrth y brif ardal llif dŵr a newidiodd gyfeiriad y llwybrau tractor o fynd i lawr y cae i fynd ar draws llif y dŵr. Mae ffermwyr yn defnyddio'r mapio llif hydrolegol i ddylanwadu ar ble mae lleiniau clustogi yn cael eu rhoi hefyd. Ar ôl gweld y mapio llif hydrolegol, mae pob ffermwr BWG yn gosod lleiniau clustogi 6 metr fel rhai safonol.
22. Rydym wedi gwneud gwaith mapio risg hefyd a ddechreuwyd cyn y rheoliadau amaethyddol newydd. Trafododd Nigel un fferm benodol lle mae llawer o arwynebedd y tir ar lethr o dros 12 gradd. Mapiwyd y llethr, priddoedd tywodlyd a'r ardaloedd parth llifogydd ac ymgorffori llain glustogi 10 metr dim gwasgaru ar gyfer pob cwrs dŵr. Nod y dull mapio risg yw i'r ffermwyr ddeall y risgiau hynny fel bod y dulliau rheoli priodol yn cael eu rhoi ar waith ac i leihau'r risg o lygredd gwasgaredig.
23. Dywedodd Nigel eu bod wedi edrych ar gynlluniau rheoli maethynnau mwy datblygedig hefyd. Yn hytrach nag edrych ar ddata RB209 syml, rydym am sicrhau bod y maethynnau sy'n cael eu defnyddio yn cael eu defnyddio'n effeithiol. Drwy ddilyn y cynlluniau rheoli maethynnau mwy datblygedig hynny, bydd y ffermydd yn gymwys i gael credyd rheoli maethynnau sy'n mynd y tu hwnt i'r rheoliadau i ddiogelu dŵr rhag ffynonellau llygredd gwasgaredig.
24. Mae gorsafodd tywydd wedi'u gosod hefyd sy'n monitro lleithder pridd, tymheredd pridd a mynegai lleithder dail, yn ogystal â data tywydd cyffredinol. Mae'r wybodaeth yn cael ei hymgorffori yn yr adroddiadau terfynol hefyd pan fydd y ffermwyr yn dilyn y cynllun rheoli maethynnau i helpu i optimeiddio amseru'r defnydd, ynghyd â chasglu tystiolaeth ac arfer gorau.

25. Dywedodd Nigel eu bod wedi llwyddo i wneud cais am EIP Carbon sy'n dod i ben ym mis Mehefin, ond mae rhai canlyniadau diddorol iawn yn deillio o hynny eisoes. Mae BWG wedi cefnogi Prosiect Pedair Afon LIFE hefyd. Mae CNC wedi bod i'r ffermydd ac wedi edrych ar y gwaith mae'r ffermwyr wedi'i wneud i sefydlogi glannau'r afonydd. Mae'r ffermwyr wedi cynnal rhanbarth Agrisgôp arall hefyd a ddaeth i weld beth sydd wedi'i wneud ac i weld sut y gallwn gyfnewid syniadau a throsglwyddo gwybodaeth.
26. Adolygodd Nigel rai o'r pethau roeddent wedi dweud y byddent yn eu gwneud ond nad oeddent wedi'u gwneud, gan gynnwys datblygu ap cofnodi caeau. Gwnaethant edrych arno a phenderfynu ei bod hi'n bwysig sicrhau bod unrhyw gynllun yn hygyrch i bawb, felly mae'r syniad hwnnw wedi'i roi o'r neilltu am y tro. Nid ydym wedi gwneud cynllunio porthiant manwl eto, ond mae hynny ar yr agenda ar gyfer gwaith yn y dyfodol. Gwnaethant gais am y Llain Glustogi Llystyfiant EIP ond, yn anffodus, ni chafodd ei gymeradwyo. Fodd bynnag, mae'r ffermydd i gyd wedi mabwysiadu llain glustogi 6 metr mewn caeau crydau.
27. Rhoddodd Nigel drosolwg o'r camau nesaf i BWG. Maent yn parhau i roi adborth i Mega-ddalgylch Bannau Brycheiniog drwy'r grŵp llywio. Mae nifer o gyfarfodydd wedi'u cynnal hefyd gyda staff Llywodraeth Cymru sy'n rheoli'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) ac mae'n wirioneddol wych gweld rhai o'r syniadau'n cael eu hymgorffori yn y cynigion. Cynrychiolir BWG hefyd ar Bartneriaeth Dalgylch Afon Wysg ac yng ngwaith datblygu marchnad y dalgylch sy'n cael ei wneud gydag ARUP a Dŵr Cymru.
28. Crynhodd Nigel rywfaint o'r gwaith yn y dyfodol, gan gynnwys:
- Mae'r EIP Carbon yn cael ei gwblhau a bydd yn cael ei ryddhau ym mis Mehefin, gydag adroddiad terfynol yn dilyn yn fuan wedi hynny
  - Cynllunio porthiant manwl
  - Prosiect ymchwil gyda Phrifysgol Aberystwyth ac IBERS sy'n edrych ar dreialon maes
  - Mireinio system credyd rheoli maethynnau i wobrwyo ffermwyr
  - Parhau i gyfnewid gwybodaeth gyda grwpiau eraill
  - Treialu coleri dim ffens mewn gwahanol sefyllfaoedd
29. Dywedodd Nigel eu bod angen y gallu i dreialu dulliau o fewn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, i ddatblygu rhwydwaith hwyluswyr (sy'n allweddol i ehangu/dyblygu grwpiau) ac i wella cyfathrebu (gwell ymgysylltu).

***PG Rhagfyr 02: Bronwen Martin, CNC, i rannu copi o gyflwyniad Dŵr Cymru a manylion cyswllt Nigel Elgar (Dŵr Cymru).***

30. Diolchodd Dav i Nigel am y diweddariad ar fenter wych a gofynnodd i Keri a Richard rannu eu syniadau. Dywedodd Richard fod BWG yn awyddus iawn i symud i ffwrdd o'r ffenestri gwasgaru rhagnodedig a'u bod yn gweithio tuag at ddefnyddio technoleg a data. Dywedodd Keri ei fod am bwysleisio pwysigrwydd cydweithio a phŵer grwpiau ffermio yn cydweithio. Un o fanteision gweithio fel cydweithrediad ffermio yw gallu dangos i grwpiau eraill beth sy'n bosibl. Daeth grŵp ffermio adfywiol o Aberhonddu sydd wedi bod ar waith ers 10 mlynedd i ymweld â ni, ac roedd yn wych gweld yr ymgysylltiad rhwng ffermwyr, yn annog cydweithio, esbonio ein stori, esbonio sut rydym wedi rhoi o'n hamser i ddatblygu'r grŵp dros bedair blynedd a chyrraedd y cam Cwmni

Buddiannau Cymunedol sy'n ein galluogi i hunan-ariannu a hunan-addysgu a mynd â ni ar deithiau addysgol.

31. Dywedodd Fraser McAuley, CLA, ei fod wedi ymweld ag aelod o CLA sy'n ffermio yn yr ardal hon yn ddiweddar, a'u bod wedi trafod y gwaith dalgylch hwn. Gofynnodd Fraser a oes cyfle i eraill gymryd rhan. Dywedodd Nigel ein bod yn edrych ar sut y gallwn ehangu'r grŵp, ac yn enwedig ariannu gwaith gan Dŵr Cymru. Mae Dŵr Cymru yn gweithio mewn cyfnodau Cynllun Rheoli Asedau (AMP) ac mae ein AMP nesaf yn dechrau yn 2025, felly hoffem ddechrau meddwl sut y gallwn symud ymlaen gyda'r grwpiau hyn yn y cyfnod nesaf hwnnw. Efallai na fydd modd cymryd rhan ar unwaith ond, yn sicr, mae'n rhywbeth rydym am ymgysylltu ag ef a gweld sut y gallwn gefnogi eraill. Ni fydd adroddiad terfynol ar Grŵp Dŵr y Bannau fel y cyfryw; bydd adroddiad terfynol ar yr EIP Carbon. Gobeithio y bydd hon yn rhaglen barhaus gyda nifer o astudiaethau achos fel y gallwn ddangos tystiolaeth o'r hyn sydd wedi gweithio neu heb weithio ac i gael buddsoddiad yn y dyfodol i gefnogi mentrau eraill fel hyn. Dywedodd Keri y byddai'n dda deall pwy yw'r ffermwr hwnnw gan ein bod yn awyddus i ddod o hyd i bobl sy'n awyddus i ddechrau. Rydym wedi dysgu bod ein grŵp yn gweithio gan ein bod yn ymddiried yn ein gilydd. Hoffem gael hwylusydd hefyd fel y gallwn rannu ein gwybodaeth a throsglwyddo gwybodaeth iddynt, a gallant wedyn gyflwyno'r wybodaeth i ffermwyr eraill sydd o'r un anian i adeiladu rhwydwaith newydd o bump neu chwech o bobl mewn gwahanol gymuned neu ddalgylch. Yna, gallem gael sawl criw o ffermwyr yn gweithio gyda'r hwylusydd.
32. Dywedodd Rachel ei bod yn aelod o Grŵp Her Cwsmeriaid Dŵr Cymru a bod atebion ar sail natur yn codi'n aml. Roedd Rachel am ddeall a yw Dŵr Cymru, drwy Mega-ddalgylch Bannau Brycheiniog, yn ariannu atebion ar sail natur ar lawr gwlad (e.e. gan ddefnyddio lleiniau clustogi 6 metr). Dywedodd Nigel fod Mega-ddalgylch Bannau Brycheiniog yn ddull cydweithredol Dŵr Cymru ar gyfer yr holl randdeiliaid ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mae BWG wedi cael ei gefnogi drwy'r rhaglen, ond maent yn grŵp annibynnol o chwe ffermwr. Nid yw Dŵr Cymru yn dweud wrth BWG beth rydym am iddynt ei wneud ond rydym wedi trafod yr heriau a gofyn iddynt sut y gallant helpu i'w datrys, beth yw'r rhwystrwyr, beth yr hoffent ei wneud a sut y gallwn wneud i hynny ddigwydd (e.e. cronfa sbarduno, trosglwyddo gwybodaeth ac ati). Nid yw Dŵr Cymru yn sbarduno'r llain glustogi 6 metr; ffermwyr BWG sy'n sbarduno hynny, yn ogystal â'r mapio llif hydrolegol a gosod y gorsafodedd tywydd yn eu lle. Gofynnodd Rachel a yw Dŵr Cymru yn ariannu atebion ar sail natur ar y ffermydd hyn neu a ydynt yn darparu cymhellion ariannol. Dywedodd Nigel nad yw Dŵr Cymru yn darparu cymhellion ariannol ond eu bod yn helpu, yn ôl yr angen, i ariannu'r ymyriadau mae ffermwyr BWG am eu gwneud eu hunain. Esboniodd Rachel mai ffermwyr sy'n arwain y gwaith, ond mae Dŵr Cymru, drwy'r Prosiect Mega-ddalgylch, yn ariannu atebion ar sail natur. Dywedodd Nigel fod Dŵr Cymru yn treialu dulliau mae'r ffermwyr yn eu cyflwyno iddynt sy'n helpu i gasglu data a thystiolaeth i asesu a oes modd ehangu pethau ymhellach.
33. Dywedodd Keri ei bod yn debygol mai'r mapio llif hydrolegol yw un o'r adnoddau pwysicaf sydd wedi gwneud gwahaniaeth mawr ond, yn hytrach na'i alw'n fapio risg, maent yn ei alw'n fapio cyfle. Dywedodd Keri nad yw'n golygu na allwch chi dyfu bwyd mewn cae dwrlawn iawn gan fod cynhyrchu bwyd wedi'i reoli'n dda yn bosibl, ond mae gwybod bod cae penodol yn risg yn allweddol i sbarduno atal llygredd. Awgrymodd Keri y dylai hyn gael ei gyflwyno ar bob fferm yng Nghymru ac y dylid rhannu gwybodaeth am beth i'w wneud ar ôl y mapio, megis datblygu arferion sy'n datrys y problemau (e.e.



pa fath o weithdrefnau sy'n gwneud cnwd penodol yn ddiogel mewn cae penodol). Dylai fod gan gaeau setiau gwahanol o atebion ar ôl i'r risgiau gael eu deall. Dylai fod opsiynau â thâl hefyd, er enghraifft, os yw ffermwr yn darparu llain glustogi 9 metr. Mae angen newid mewn meddylfryd hefyd i ddefnyddio'r atebion hyn i dynnu'r maethynnau allan o'r afonydd. Wrth symud ymlaen, mae angen i ni bwysleisio pŵer cnydau gorchudd, rhoi cymhellion i'w defnyddio a helpu ffermwyr i ddeall pwysigrwydd eu defnyddio. Soniodd Keri am 'elw ar gyfer porfa' ('*profit for pasture*') a manteision cadw cnydau gorchudd dros y gaeaf ac ymlaen i'r gwanwyn. Mae BWG ond yn dechrau deall pa effaith allai hynny ei chael o ran gohirio'r afon am 30 munud i helpu yn ystod digwyddiadau fel Storm Dennis. Gallai ffermwyr gael eu talu ar lefel arall hefyd o fewn dull fferm ddalgylch i fod â chnydau gorchudd ehangach. Yn y pen draw, gall casgliad o bethau y gall ffermwyr eu defnyddio gael eu rhannu gyda'r hwyluswyr ac yna eu rhannu gyda grwpiau ffermwyr eraill. Dywedodd Keri y byddai BGW yn hoffi mynd â phethau ymhellach hefyd drwy ystyried creu pyllau ac archwilio'r posibilrwydd o ddull ynni fferm gyda dull hydro ar raddfa fach.

34. Er mai ansawdd dŵr oedd y sbardun ar gyfer Dŵr Cymru, dywedodd Nigel fod prif ganlyniad y prosiect hwn wedi'i gysylltu â gwyddor gymdeithasol. Mae wedi bod yn ymwneud â sut rydym yn cael pobl i deimlo eu bod yn cymryd rhan lawn yn y broses o fynd i'r afael â heriau gyda'i gilydd. Mae Grŵp Dŵr y Bannau wedi cael y dasg o gyflwyno syniadau ac atebion. Mae'r ffermwyr hyn yn deall y darlun cyfan ac wedi buddsoddi ynddo, felly mae elfen o gynaliadwyedd i'r cyfan. Dywedodd Nigel na fyddai llawer o wahaniaeth pe bai Dŵr Cymru yn cymryd cam yn ôl nawr gan fod BWG yn CIC ac yn hunangynhaliol ac y gallent gael cyllid o rywle arall. Dyma ble mae'r pŵer yn fwy na'r agwedd ansawdd dŵr; mae'n deillio o ffermwyr Grŵp Dŵr y Bannau'n gweithio gyda'i gilydd, heb os.

## Eitem 4 Adolygu'r Cofnodion a'r Camau Gweithredu

35. Ar ôl i'r grŵp adolygu cofnodion y cyfarfod a chytuno'n ffurfiol arnynt, cadarnhaodd y Cadeirydd y bydd y cofnodion hynny'n cael eu cyhoeddi ar wefan CNC lle byddant ar gael i'r cyhoedd. Felly, mae'n bwysig i'r cofnodion fod yn gofnod cywir o'r cyfarfodydd.
36. Adolygodd y grŵp gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 21 Tachwedd 2022. Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau na gwelliannau awgrymedig mewn perthynas â chofnodion cyfarfod mis Tachwedd.
37. Soniodd Bronwen Martin, CNC, fod un cam gweithredu heb ei gyflawni o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Hydref 2022:
- PG Hydref 07: Aelodau i gysylltu â Marc Williams, CNC, ynglŷn â chymorth ar gyfer y cyfle Menter Ymchwil Busnesau Bach.
    - Nodyn i atgoffa'r aelodau i gysylltu â Bronwen neu Marc ynglŷn â chynigion mewn nwyddau, cymorth ariannol ac ati. Cafodd aelodau eu hannog hefyd i gysylltu pe baent eisiau mwy o wybodaeth am y broses Menter Ymchwil Busnesau Bach.

## Eitem 5 Materion yn Codi

38. Croesawodd Dav y cyfle i'r grŵp drafod unrhyw faterion sy'n codi o gofnodion y cyfarfod blaenorol, dogfennau perthnasol neu bynciau diweddar.



39. Soniodd Dav am ymgynghoriad Adolygiad Strategol o Godi Tâl (SRoC) CNC. Mae'r aelodau wedi derbyn y ddolen i'r arolwg [Ymgynghoriad ar ein ffioedd a thaliadau rheoleiddio ar gyfer 2023/2024](#). Atgoffodd Dav y grŵp fod yr ymgynghoriad yn dod i ben ar 7 Ionawr 2023. Soniodd Rachel fod yr ymgynghoriad yn achosi cryn bryder a bod y cynnydd arfaethedig wedi achosi dicter ymhlith rhai o aelodau NFU Cymru. Dywedodd Rachel y bydd NFU Cymru yn gweithio gyda'u haelodau er mwyn cyflwyno ymateb. Fodd bynnag, er eglurder, nid yw NFU Cymru yn defnyddio'r cyfleuster arolwg ar-lein a ddarperir gan CNC ar gyfer ymateb i'r ymgynghoriad. Esboniodd Rachel eu bod yn paratoi drafft, yn ei anfon at eu haelodau i'w ystyried, ac yna'n ei gyflwyno fel dogfen yn hytrach nag ymateb i'r arolwg. Soniodd Dav bod CNC wedi clywed llawer o bryderon yn ystod y Ffair Aeaf a bod CNC wedi bod yn ateb cwestiynau ac ymholiadau hefyd.
40. Soniodd Bronwen fod Katy Simmons, CNC, wrthi'n llunio'r rhifyn nesaf o Gylchlythyr Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru 'Ein Tir, Dŵr ac Aer'. Bydd Katy'n dosbarthu copi prawf o'r Cylchlythyr i aelodau ac mae wedi gofyn i bawb roi adborth ar y drafft hwn erbyn 14 Rhagfyr 2022. Bydd y cylchlythyr yn cael ei gwblhau a'i gyhoeddi ar 15/16 Rhagfyr 2022.

***PG Rhagfyr 03: Aelodau i roi adborth ar y cylchlythyr drafft erbyn 14 Rhagfyr 2022.***

## **Eitem 6 Unrhyw Fater Arall**

41. Bydd cyfarfod nesaf Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ym mis Ionawr 2023; bydd y dyddiad yn cael ei gadarnhau maes o law.

***PG Rhagfyr 04: Bronwen Martin, CNC, i drefnu dyddiadau cyfarfodydd ar gyfer 2023.***

***PG Rhagfyr 05: Aelodau i awgrymu eitemau agenda a phynciau trafod posibl ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol; anfonwch nhw i flwch negeseuon e-bost Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru.***

42. Dymunodd Dav Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda i bawb.

## **Diwedd y cyfarfod**